

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mawrth 5ed 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, March 5th at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, Gareth Evans, Delfryn Owens, Teifi Davies, Gwyn James, Jonathan Rees, Melva Phillips.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Walwyn Jones, William Anwyl, Barri Davies.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim byd i'w gofnodi/*Nothing to record.*

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 6/2/24

Cynnig gan Caerwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Teifi.

4 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Cyfethol Aelod/Co-opting Member

Ni chafwyd unrhyw ymateb ffurfiol yn dilyn y cyfnod ymgynghori o 3 wythnos gan *ganiatáu i'r Cyngor Cymuned barhau â'r broses o gyfethol aelod. Y newyddion da fodd bynnag* yw fod Melva wedi cysylltu gydag Elen Mathias, Pen Ffynnon, a'i bod wedi cytuno i ddod yn aelod diweddaraf y Cyngor. Mynegodd y Clerc y byddai'n cysylltu ag Adran Etholiadol y Cyngor Sir i gadarnhau'r trefniadau.

No formal response was received following the 3 week advisory period which enables the Community Council to continue with the process of co-opting a member. The good news is that Melva has contacted Elen Mathias, Pen Ffynnon, and duly agreed to become a member of the Council. The Clerk expressed his intention to contact the County Council's Electoral Department in order to confirm the arrangements.

ii) Rhagor o Lofnodwyr/*Additional Signatories*

Dywedodd y Clerc ei fod wedi dechrau'r broses o ychwanegu at nifer y llofnodwyr at ddibenion llofnodi sieciau.

The Clerk stated that he had started the process of adding to the number of valid signatories for the purpose of signing cheques.

iii) Rhaglen Hyfforddiant/*Training Programme*

Clywyd bod Jonathan wedi methu â mynychu ei gwrs hyfforddiant yn ddiweddar. Cytunodd y Clerc i ohebu gydag Un Llais Cymru er mwyn ceisio dyddiad arall ar ei gyfer. Nodwyd hefyd fod Delfryn yn ceisio cael dyddiad newydd ar gyfer ei gwrs yntau hefyd.

It was noted that Jonathan had been unable to attend his training course recently. The Clerk agreed to correspond with One Voice Wales in order to arrange an alternative date. Also it was stated that Delfryn is attempting to re-arrange a date for his course as well.

iv) Talu'r Yswiriant/*Insurance Payment*

Dywedodd y Clerc fod Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned wedi'i dalu'n ddiweddar.

The Clerk stated that the Community Council's Insurance Policy had been paid in full.

5 Cyllid/Finance

i) Balans y Cyfrif/Account Balance

Yn dilyn taliadau diweddar tuag at y Gwasanaeth Beic Gwaed, cynnal tai bach Tresaith, cyflog y Clerc ac Yswiriant y Cyngor, balans y Cyfrif bellach yw £7214.45. *Following recent payments towards the Blood Bike service, maintenance of public toilets at Tresaith, Clerk's salary and the Council's Insurance, the balance at present is £7214.45.*

ii) Cais CFFI Ceredigion/Ceredigion YFC Application

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth y mudiad yng Ngheredigion. Cafwyd trafodaeth iach ynghylch y dewis o gefnogi'r mudiad yn ganolog neu gefnogi clybiau lleol ar lawr gwlad. Cytunwyd i wneud ymholiadau yn lleol cyn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

An application for financial assistance was received from YfC in Ceredigion. A constructive discourse ensued regarding the choice of either supporting the movement centrally or supporting the local clubs in the vicinity. It was agreed to make further enquiries before deciding the best way forward.

iii) Costau gweinyddol y Clerc/Clerk's administrative costs

Cyflwynodd y Clerc gyfanswm o £34.50 gerbron y Cyngor yn sgil y costau a achoswyd wrth gyflawni dyletswyddau gweinyddu penderfyniadau'r Cyngor. Derbyniwyd y costau hyn yn unfrydol gan yr aelodau. Nodwyd hefyd fod y Clerc wedi bod yn cysylltu gyda gwahanol gyrff ar y ffôn am gyfnod o 2 awr a 36 munud yn ystod y cyfnod diweddar. Oherwydd na fedrem nodi union gost y galwadau hyn ar hyn o bryd, cytunwyd i'w nodi gan ddychwelyd ato pan gawn ragor o fanylion. *The Clerk presented a request for £34.50 before the Council regarding the administrative costs incurred by administering the Council's decisions. This request was agreed unanimously. It was also noted that the Clerk had contacted various bodies by telephone for a period of 2 hours and 36 minutes during the recent period. Because nobody was able to specify the actual cost of these calls at the moment, it was agreed to keep this in mind and return to it when further details are received.*

iv) Cytundeb Newydd y Clerc/Clerk's New Contract

Cododd Delfryn yr angen am gwblhau ac arwyddo cytundeb newydd y Clerc gan nodi bod y ddogfen wedi'i chyfieithu ac yn barod i'w harwyddo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ymhlith yr aelodau. Ar ran y Cyngor cydsyniodd Delfryn a Gwyn i arwyddo'r ddogfen yn swyddogol.

Delfryn raised the need to complete and sign the Clerk's new contract, mentioning that the document had been translated and ready to sign. The members agreed to this unanimously. It was also agreed that Delfryn and Gwyn would sign on behalf of the Council.

v) Baich ariannol y dyfodol/Future financial burdens

Yng nghyd-destun cyllideb y Cyngor Sir, cododd Gwyn y pryder y byddai mwy a mwy o'r baich ariannol yn disgyn ar ysgwyddau'r Cynghorau Cymuned yn y dyfodol. Mae yna berygl y bydd y Cyngor Sir yn canolbwyntio ar waith statudol yn unig ac yn awyddus i drosglwyddo cynnal cyfrifoldebau eraill i'r Cynghorau Cymuned. Yr enghraifft a nododd oedd cadw tai bach Tresaith yn agored yn y dyfodol. Wrth godi hyn, dywedodd y byddai angen ystyried hyn wrth drafod y Praesept yn y dyfodol. *Within the context of Ceredigion's budget, Gwyn raised the concern that more and more of the financial burden would be transferred to the Community Councils in the future. The danger is that County Councils will restrict themselves only to statutory*

services. He referred to the responsibility of maintaining public toilets at Tresaith. This would mean having to consider any implications regarding the level of Precept levied in the future.

6 Cynllunio/Planning

- i) A240112 1 Cae Llwyni, Sarnau

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

7 Gohebiaeth/Correspondence

- i) Llythyr Eglwys Penbryn/*Penbryn Church Letter*

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd yr Eglwys yn egluro mai Esgobaeth Tyddewi sydd yn berchen y maes parcio. Gwnaeth ymholiad hefyd ynghylch y posibilrwydd o gyfraniad ariannol tuag at y gwaith sy'n debygol o gostio oddeutu £3200. Y pwynt cyntaf a godwyd oedd a oes gennym hawl i gyfrannu'n ariannol yn uniongyrchol tuag at addoldai? Pwysleisiwyd hefyd fod angen ymdrin â phob addoldy yn y plwyf yn gydradd. Daethpwyd i'r casgliad yn unfrydol y dylid gohirio unrhyw benderfyniad a gohebu â'r Eglwys er mwyn egluro'r sefyllfa.

Correspondence was received from the Secretary of Penbryn Church stating the car park was owned by the Diocese. He also made enquiries regarding future financial assistance towards the proposed improvements estimated to cost £3200. The point was raised about the validity of any direct financial assistance from ourselves to a place of worship? The need to be equal handed when dealing with all places of worship in the parish was also raised. It was unanimously agreed to discuss the matter further and correspond with the Church in order to clarify the situation.

- ii) Gohebiaeth Elin Jones/*Elin Jones' Correspondence*

Daeth cais oddi wrth Elin Jones yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg i'r polisi terfyn cyflymder 20 mya. Ei dymuniad hi yw cywain ymateb y cymunedau unigol a nodi enghreifftiau ble y teimlir bod angen ei addasu a'i newid. Ail bwynt a nododd oedd a oes yna newidiadau eraill ar hyd ein ffyrdd sydd angen eu crybwyll? Yng nghyd-destun ein trafodaeth ynghylch diogelwch yr A487 yn y plwyf hwn, cytunwyd yn unfrydol y dylid atgoffa'r Asiantaeth Ffyrdd yng Nghonwy ynglyn â'n gohebiaeth ddiweddaraf. Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i bawb gnoi cil ar y mater.

A request was received from Elin Jones following the Welsh Government's decision to review the 20 mph policy. She wishes to comprehend local communities' reaction to the policy as well as formulating a list of roads where it is felt it needs to be reviewed and changed. She also asked whether there were any other roads which needed reviewing as regards safety. Following our correspondence regarding the A487, it was agreed to correspond further with the Road Agency at Conwy regarding our previous correspondence. It was agreed to discuss this thoroughly at next month's meeting in order to compile a comprehensive report.

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Digwyddiad ger Glynarthen/*Incident at Glynarthen*

Y diweddaraf ynghylch y digwyddiad diweddar, ger Maes Carafanau Woodlands, yw fod y Cyngor wedi bod allan i ysgubo'r heol a llenwi tyllau yn y cyffiniau. Ond heb yr

adnoddau i gwblhau'r gwaith a llenwi'r ffos a fyddai'n lledu'r ffordd, mae'n debygol y bydd digwyddiad tebyg arall yn y dyfodol.

The latest regarding this incident is that the Concil has made minor improvements namely sweeping the road and filling in any potholes. However, without the resources to complete the work thoroughly, it is highly likely a similar incident will occur in the future.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y Cyfarfod Nesaf ar nos Fawrth Ebrill 2ail, 2024 am 7.30 y.h.

Next Meeting will be held on Tuesday April 2nd, 2024 at 7.30 p.m.